# Cofnodion

## Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu

Dyddiad: Dydd Iau, 31 Ionawr 2019

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cynghorwyr J Guy (Cadeirydd), M Al-Nuaimi, G Berry, M Evans, C Ferris, M Spencer and K Thomas

Rhys Cornwall (Strategic Director - Transformation and Corporate Centre), Meirion Rushworth (Head of Finance), Daniel Cooke (Cynghorydd Craffu) and Lisa Davies (Swyddog Llywodraethu)

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr C Evans and L Lacey

---

1 **Datganiadau o Fuddiant**

Dim.

2 **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2018**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2018 fel rhai cywir yn amodol ar newid y cofnod presenoldeb i gyfleu ymddiheuriadau i'r Cynghorydd Kate Thomas am ei bod yn y cyfarfod.

3 **Cyllideb 2019/20 a Chynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC)**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid drosolwg byr o broses y gyllideb, a dweud fod y gyllideb wedi adeiladu ar y Cynllun Ariannol Tymor Canol, gan ddefnyddio rhagdybiaethau allweddol i gyfoesi'r CATC lle bo angen. Hysbysodd y Swyddog y Pwyllgor fod galw cynyddol ym meysydd gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Addysg, oedd yn gofyn am wneud addasiadau. Drafftiwyd cyllideb o derfyn arian yn haf 2018 ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/2020. Yna cafodd y Cyfarwyddwyr Strategol a'r Penaethiaid Gwasanaeth darged penodol o'r gyllideb gyfan am y flwyddyn, ac yr oedd gofyn i Swyddogion ddarparu eu gwasanaethau o fewn y gyllideb benodol honno. Gwnaed yr Uwch-Swyddogion yn ymwybodol o'r cyllidebau arian yn gynnar yn yr hydref, a chafwyd sgyrsiau gydag Aelodau'r Cabinet i weld ym mha feysydd y gellid gwneud arbedion. Yna, penderfynwyd ar yr achosion busnes, a dechreuodd y prosesau ffurfiol o ran penderfyniadau gan Aelodau Cabinet a'r ymgynghoriadau cyhoeddus.
Yr un broses oedd hon a ddefnyddiodd yr awdurdod dros y blynyddoedd blaenorol, ac yr oedd yn broses sy'n para trwy'r flwyddyn. Y brif her oedd yn wynebu'r tîm cyllid oedd y safbwynt tymor canol, ond yr oedd y swyddogion yn cynnal sgyrsiau cyson gyda meysydd gwasanaeth er mwyn eglurder a rhoi dealltwriaeth am y rhagdybiaethau a chynlluniau at y dyfodol.
Esboniodd y Pennaeth Cyllid ei bod yn anodd ond nid yn amhosib cynllunio at y dyfodol. Er mwyn deall yn iawn effeithiau pwysau ac arbedion ar y gyllideb, yr oedd y

Cyngor yn gyson yn adolygu a mireinio ei ragdybiaethau. Gwnaed hyn yn fwy anodd gan daliadau unwaith-am-byth a grantiau oedd ar gael trwy gydol y flwyddyn. Yn y flwyddyn flaenorol, gwnaed taliad unwaith-am-byth i ysgolion, ac yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, bydd taliad tebyg ar gael i Ofal Cymdeithasol. Yr oedd hyn wedi caniatáu i'r Cyngor fwrw ymlaen â rhai o'r arbedion angenrheidiol, ond fe'i gwnaeth hefyd yn anodd cynllunio.
Esboniodd y Pennaeth Cyllid, wrth greu cynigion y gyllideb a'r achosion busnes rhaid oedd i'r Swyddogion wneud rhai rhagdybiaethau, ar sail y wybodaeth fwyaf manwl oedd ar gael iddynt. Yr oedd y tîm cyllid hefyd yn rhan o unrhyw drafodaethau am gynhyrchu incwm petai hynny yn ddeilliant a fwriadwyd o'r achos busnes.

Gofynnodd yr Aelodau y cwestiynau canlynol a derbyn yr atebion a ganlyn gan y Swyddogion:

- Yr oedd y Pwyllgor yn pryderu am lefel y manylion yn yr achosion busnes. Esboniodd y Pennaeth Cyllid fod yn rhaid iddynt fod yn ddethol gyda'r wybodaeth oedd yn yr achosion busnes er mwyn sicrhau mai dim ond y wybodaeth fwyaf hanfodol oedd yn cael ei gynnwys yn yr achos busnes ar gyfer ymgynghori. Cafwyd yn wastad wybodaeth oedd yn cael ei ddefnyddio i greu ac ysgrifennu'r achosion busnes a bennwyd nad oedd yn angenrheidiol, ond nid oedd hynny'n golygu nad oedd yn bwysig i'r Swyddogion. Bwriadwyd i achosion busnes fod mor gryno ag oedd modd.

Teimlai'r Pwyllgor nad oedd hyn yn dderbyniol, a dywedodd, er mwyn i'r cyhoedd wneud penderfyniad gwybodus ar unrhyw bwnc, byddai arnynt angen cymaint o wybodaeth ag sydd modd.

- Esboniodd y Swyddog fod pob awdurdod lleol mewn sefyllfa ariannol anodd, ond y mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymrwymo i gyllido popeth yn y Cynllun Corfforaethol. Y Ganolfan Ddarganfod oedd yr unig ran o'r Cynllun Corfforaethol nas cynhwyswyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol. Weithiau, nid oedd nodau ac amcanion y Cyngor yn cael effaith ariannol; er enghraifft, byddai Gorfodaeth Parcio Sifil yn talu amdano'i hun, a byddai unrhyw arian a godwyd o ddirwyon yn cael ei neilltuo i wella ffyrdd.

Gofynnodd y Pwyllgor am ddatganiad gan y Pennaeth Cyllid am ddyheadau ac effaith y gyllideb derfynol ar nodau ac amcanion tymor-hir y Cynllun Corfforaethol.

- Derbyniodd y Pwyllgor fod peth gorwariant yn anorfod, yn enwedig mewn meysydd fel Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, gallai'r gorwariant hwn weithiau fod yn fawr iawn, a bod yn afrealistig i'r meysydd gwasanaeth ei reoli ar eu pennau eu hunain. Ar adegau fel hyn, byddai'r gorwariant yn cael ei reoli ar lefel y cyngor. Yr oedd y gyllideb am feysydd heb fod yn rhai gwasanaeth wedi galluogi'r Cyngor i reoli ei gwaelodlin.

- Calonogwyd y Pwyllgor o glywed fod y Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol o faint o arbedion fyddai'n rhaid iddynt wneud erbyn dechrau'r hydref, gan y byddai hyn yn caniatau iddynt roi prawf ar eu syniadau gyda'r bobl fyddai'n teimlo effaith yr arbedion posib cyn creu'r achosion busnes. Dywedodd y Pennaeth Cyllid ei bod yn bwysig cofio nad gosod y gyllideb yn y gwanwyn oedd yr unig ran o'r broses flynyddol o arbedion blynyddol y gyllideb. Esboniodd y Swyddog y gallai Penaethiaid Gwasanaeth gymryd penderfyniadau dirprwyedig ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, neu gallai Aelodau'r Cabinet gymryd penderfyniadau; dyma oedd y prosesau oedd ar gael.

Dywedodd y Pwyllgor eu bod yn ymwybodol o bwerau dirprwyedig Penaethiaid Gwasanaeth, ac yr ymgynghorir â'r holl Aelodau ar benderfyniadau Aelodau'r Cabinet, ond eu bod am wneud sylwadau am ymgynghori a'r cyhoedd, yn enwedig ymwneud â'r rhai y bydd penderfyniad posib yn effeithio fwyaf arnynt. Cyfeiriodd yr Aelodau at

SenCom fel enghraifft o'r modd y gallai ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth newid deilliant i'r Cyngor.

- Dywedodd y Pennaeth Cyllid, pan fod y Cyngor yn edrych at ryw dair i bedair blynedd ymlaen ac yn ymgynghori â phobl, y byddant lle mae angen iddynt fod. Yr oedd hyn yn arbennig o wir yn yr hinsawdd economaidd presennol, ond yr oedd awdurdodau lleol eraill yn llwyddo i wneud hyn; felly hefyd Gasnewydd petai'r holl Swyddogion a'r Aelodau yn ymrwymo i edrych ymlaen.

Daeth y Pennaeth Pobl a Newid Busnes at y bwrdd wrth i gwestiynau'r Pwyllgor ddechrau ymdrin ag ymgynghori cyhoeddus am y gyllideb.

- Esboniodd y Pennaeth Pobl a Newid Busnes fod ei dîm yn gweithio gyda meysydd gwasanaeth i ddatblygu'r achosion busnes, ond eu bod yn gwneud hynny gydag adnoddau oedd yn prinhau. Yr oedd y dyhead yno i ymwneud â defnyddwyr gwasanaeth, a hyn weithiau oedd ar goll o'r broses. Derbyniodd y Pwyllgor fod adnoddau prin wedi effeithio ar y gall i ymwneud â defnyddwyr gwasanaeth, ond dywedwyd y dylai Aelodau'r Cabinet a'r Swyddogion wneud mwy i ymwneud â'r sawl yr oedd penderfyniadau posib yn effeithio arnynt yn benodol.

- Dywedodd y Pennaeth Pobl a Newid Busnes, petaent am ymwneud a phobl a mudiadau a allai ddioddef yr effeithiau, fod yn rhaid cael newid sefydliadol a diwylliannol yn y Cyngor. Aeth y Swyddog ymlaen i ddweud fod y Grŵp Ymgynghori ac Ymwneud yn cwrdd ar Fawrth 5 ac y byddai'r Grŵp yn hapus i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu am yr hyn a drafodwyd a beth fyddai'n digwydd yn y dyfodol.

- Esboniodd y Pennaeth Pobl a Newid Busnes ei rôl a swyddogaethau Penaethiaid Gwasanaeth eraill o ran ymwneud a'r cyhoedd, a phobl oedd yn dioddef yr effeithiau yn arbennig. Teimlai'r Pwyllgor fod angen herio Penaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr Strategol i ymwneud a rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu arbedion cyn dod i benderfyniad.

- Hysbysodd y Pennaeth Pobl a Newid Busnes y Pwyllgor fod y Cyngor wedi cael archwiliad yn ddiweddar i ganfod sut yr oedd Pum Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu gweithredu. Yr oedd gan y Cyngor ffodd bell i fynd, ac yr oedd yn ffordd dda o feddwl a chynllunio ar gyfer y tymor hir. Cytunodd y Pennaeth Cyllid, gan ddweud fod gofynion y Ddeddf yn anodd yn yr hinsawdd ariannol fel y mae, ond eu bod yn ei eu gwreiddio yn arferion gwaith y Cyngor. Dywedodd y Pennaeth Pobl a Newid Busnes fod y gwaith adfywio sy'n cael ei wneud gan y  cyngor yn enghraifft wych o effaith y  Ddeddf ar gyflwyno gwasanaethau.

Dywedodd y Swyddogion wrth y Pwyllgor sut y gellid defnyddio'r Ddeddf fel fframwaith i gynllunio gwasanaethau, gan ddefnyddio amlinelliad o ragfynegiad y gyllideb dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

- Yr oedd y Pwyllgor am wybod a oedd Asesiadau Effaith Tegwch a Chydraddoldeb (AETCh) yn cael eu defnyddio i fesur yr effaith bosib ar bobl neu sefydliadau. Cytunodd y Swyddogion, gan ddweud y dylid defnyddio AETCh cyn ysgrifennu'r achos busnes, ac y dylid datblygu achos busnes o'r wybodaeth a gafwyd mewn AETCh. Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd AETCh o ran sicrhau bod maes gwasanaeth yn ymgynghori â grŵp neu berson yr effeithir arnynt cyn gwneud achos busnes neu gymryd penderfyniad. Dywedodd yr Aelodau hefyd ei bod yn bwysig fod yr AETCh yn cael eu cwblhau'n gywir i safon benodol gyda dadansoddiad digon manwl.

- Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod ar Gasnewydd angen 'sleisen fwy o'r bastai ariannol' oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys twf mewn poblogaeth, adeiladau, a chodi ysgolion. Yr oedd Cyngor Dinas Casnewydd ymysg y pump neu chwech o brif gynghorau yng Nghymru, ond yr oedd ei gostau yn uwch na'i Asesiad Gwario safonol (AGS). Petai'r Cyngor eisiau cau'r bwlch rhwng gwario ac AGS gydag arian a godwyd trwy Dreth y Cyngor, byddai'n rhaid cael codiad o fwy na 20%.

- Hysbysodd y Pennaeth Cyllid y Pwyllgor y dylid defnyddio gorwel gynllunio dreigl o bedair blynedd i sefydlu cynllun cost am y pedair blynedd. Dylid defnyddio modelu cyllideb i gymryd i ystyriaeth y straen allweddol posib ar y gyllideb o du addysg, pobl ifanc mewn gofal, a rhagdyb o sylfaen o 4%. Yr oedd y Pwyllgor am argymell fod y Swyddogion yn ceisio datblygu'r gorwel gynllunio dreigl o bedair blynedd ar gyfer y gyllideb.

- Yr oedd y Pwyllgor am roi cynllun cyllideb 4-blynedd penodol i addysg/ysgolion i ganiatáu iddynt gynllunio'n fwy effeithiol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu presenoldeb.

**<u>Casgliadau:</u>**

Dymunai'r Pwyllgor wneud y sylwadau a'r argymhellion canlynol i'r Cabinet:

- Yr oedd y Pwyllgor am amlygu eu rhwystredigaeth a'u siom gyda lefel wael y manylion yn yr achosion busnes eto eleni, gan y gwnaed yr argymhelliad hwn i'r Cabinet yn yr ymgynghoriad ar gyllideb llynedd. Yr oedd lefel y wybodaeth yn yr achosion busnes a'r mecanweithiau ymgynghori yn bwysig er mwyn caniatau i'r sawl yr ymgynghorwyd â hwy wneud sylwadau gwybodus.

- Gofynnodd y Pwyllgor am ddatganiad gan y Pennaeth Cyllid ar ddyheadau ac effaith y gyllideb derfynol ar nodau ac amcanion tymor hir y Cyngor fel y'u gosodir allan yn y Cynllun Corfforaethol.

- Argymhellodd y Pwyllgor fod ymwneud â phawb y gall penderfyniadau sy'n effeithio arnynt ddigwydd cyn i Benaethiaid Gwasanaeth ac Aelodau Cabinet gymryd penderfyniadau.

- Yr oedd y Pwyllgor am dderbyn diweddariad a chynllun gweithredu gan y Grŵp Ymgynghori ac Ymwneud wedi eu cyfarfod ar Fawrth 5 2019.

- Argymhellodd y Pwyllgor fod mwy o amser yn cael ei dreulio i ddatblygu Asesiadau Effaith Tegwch a Chydraddoldeb o safon uchel er mwyn cael dadansoddiadau manylach cyn cymryd penderfyniadau. Dylai penderfyniad hefyd nodi sut y defnyddiwyd gwybodaeth a gafwyd o AETCh wrth ei ddatblygu.

- Dylid dosbarthu adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar y modd yr oedd y Cyngor yn gwreiddio Pum Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i'r Pwyllgor pan gaiff ei gyhoeddi.

- Gofynnodd y Pwyllgor am ddogfennu gweithdrefn proses flynyddol y gyllideb, gydag adborth penodol pan ofynnir am hynny trwy gydol y flwyddyn.

- Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Cyngor symud at gyllideb dreigl bedair-blynedd ar sail y modelu a'r wybodaeth sydd ar gael ar y pryd.

- Argymhellodd y Pwyllgor y dylai ysgolion gael cyllideb pedair-blynedd fel y gallant gyllidebu a chynllunio yn fwy effeithiol.

4 **Adroddiad Cynghorydd Craffu**

Yn bresennol:

- Daniel Cooke – Ymgynghorydd Craffu

a) Blaen-Raglen Waith

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu y blaen-raglen waith a hysbysu'r Pwyllgor o'r pynciau i'w trafod yn y ddau gyfarfod nesaf:

**7 Mawrth 2019** ○ Adolygiad Dilynol ac Argymhellion Archwilio Cymru ar Wastraff Monitro –Strategaeth Gwastraff ○ Diogelu Corfforaethol Blynyddol 2018/2019

**18 Ebrill 2019** ○ Drafft o Strategaeth Adfywio Economaidd ○ Drafft o Strategaeth Cyfleusterau Cyhoeddus

b) Camau yn Codi

Gofynnodd y Pwyllgor am gynnwys y daflen weithredu gyda'r cofnodion yn agendau'r dyfodol.

Nododd y Pwyllgor y daflen weithredu a ddarparwyd oedd yn cynnwys un cam ers y cyfarfod blaenorol sydd heb ei gyflawni eto. Bydd yr Ymgynghorydd Craffu yn ceisio diweddariad cyn y cyfarfod.

c) Llythyr Cyfeirio Pwnc Craffu

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu y Llythyr Cyfeirio Pwnc Craffu gan y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio - Amgylchedd a Chymuned. Gofynnodd y Pwyllgor am i'r adroddiad drafft terfynol gael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor wedi'r ymgynghoriad, fel y gall y Pwyllgor wneud unrhyw argymhellion neu sylwadau y teimlant sy'n angenrheidiol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 pm

Daeth y cyfarfod I ben am 12.30 pm